Teithiau Cerdded Gwledig o Gwmpas Wrecsam

Rhif 2 RHIWABON – Coed a Chaer Gardden (3.5 milltir)

Tatham – Y Gaer - Afon Eitha – Coed Gardden

Sylwer:

- Rhaid hysbysu'r curad o flaen llaw os ydych yn dymuno mynd i'r eglwys
- Gall y llwybr fod yn fwdlyd ar adegau ac argymhellir eich bod yn gwisgo esgidiau cryfion

Cludiant
Mae'r daith gerdded hon yn dechrau yn Rhiwabon, lle mae nifer o wasanaethau bysiau o Wrecsam yn mynd trwyddo.

Ar adeg ysgrifennu'r ddogfen, mae lle parcio ar gael am ddim ar Ffordd yr Orsaf (cyfeirnod grid SJ 300438) ond mae lle ar gael hefyd yng nghanol y pentref gerllaw.

Cyfarwyddiadau

Dechreuwch o Ffordd yr Orsaf a throwch i'r chwith ar hyd y brif ffordd, gan fynd heibio i'r **tŷ crwn (1),** hen garchar o'r 18fed ganrif. Ychydig fetrau ymlaen y mae hen gerbyty y **Wynnstay Arms (2).**

Trowch i'r chwith wrth **Eglwys y Santes Fair (3)** a adeiladwyd yn y 13eg ganrif. Cyn hir, ewch heibio i'r **hen ysgol ramadeg (4)** ar yr ochr chwith a'r elusendai ar yr ochr dde.

Ychydig dros y bont reilffordd, trowch i'r dde a dilynwch y llwybr troed ar hyd ochr y fynwent. Mae digonedd o'r gegiden fenyw a helyglys hardd yn tyfu yma. I'r dde, ceir golygfa dda o dai wedi'u hadeiladu o'r briciau coch lleol adnabyddus ac ar yr ochr chwith fe welwch bwll clai.

Trowch i'r chwith gan ddilyn ffin y fynwent. Edrychwch i'r gogledd-ddwyrain ac ar ddiwrnod clir gellir gweld bryniau Peckforton a chastell Beeston yn y pellter. Ewch YN SYTH YMLAEN gan

sicrhau bod y gwrych ar yr OCHR DDE i chi. Rydych yn cerdded nawr ar hyd llwybr a arferai fod yn rhan o'r gaer wreiddiol, a welwch yn nes ymlaen. Dilynwch yr un llinell ar hyd y lôn fwdlyd i **Fferm Tatham (5).**

Ewch yn dawel trwy fuarth y fferm heibio i ysguboriau sydd wedi'u trosi'n ddiweddar i'r ffordd a throwch i'r dde. Mae'r lôn hon sy'n mynd i lawr allt yn rhedeg gyferbyn â **Chlawdd Offa (6),** sef y clawdd a welwch ar yr ochr dde. Ceir hen goed derw, ffawydd a sycamor mawreddog yma. Byddwch yn mynd heibio i fwrdd gwybodaeth 'Llwybr Treftadaeth Rhiwabon' hefyd. Ychydig cyn yr Ystad Ddiwydiannol, trowch i'r chwith ar hyd lôn. Wrth ddringo'r allt serth, efallai y sylwch ar yr amrywiaeth eang o blanhigion sy'n tyfu yma. Mae llysiau'r llwynog, craf y geifr, tafod yr hydd, bysedd y cŵn a mochlys grawnddu yn amlhau; hefyd ceir coed celyn, coed cnau castan a choed ysgawen.

Dilynwch y tro i'r dde heibio i'r tŷ sy'n debyg i siale. Ymhellach ymlaen sylwch ar y **tŷ iâ** ar y chwith a safle **porthdy Gardden (7)** ar ochr arall y ffordd. I fyny o amgylch y tro a heibio i Ben y Coed gwelir gweddillion y **gaer (8)** hynafol. Yma mae ail fwrdd 'Llwybr Treftadaeth Rhiwabon', lle ceir gwybodaeth gefndirol am natur a hanes ddiddorol yr ardal.

Mae coed ffawydd prydferth yma yn ogystal â llu o adar. Mae'r golygfeydd eang a darluniaidd i'r dde yn cynnwys gweithfeydd glo brig y Delph sydd bellach wedi'i adfer a'i dirlunio. Trowch i'r dde ger y tai pâr o friciau Rhiwabon, ewch heibio i'r bwthyn carreg a bydd y llwybr yn eich arwain i'r chwith i'r **'Coed Creigiog' (9)**

Peidiwch â gadael i blant na chŵn redeg o'ch blaen, mae nifer o gwympiadau serth yn yr ardal hon. Mae arwyddo'r ffordd yn broblem gan fod y pyst a'r nodwyr yn cael eu fandaleiddio yn aml. Os bydd hyn wedi digwydd ar eich ymweliad, defnyddiwch yr amcangyfrifon o bellteroedd a ddarperir.

Dowch i chwarel tywodfaen ar yr ochr dde. O'r pwynt agosaf at y llwybr, cyfrwch 78 o gamau oedolyn cyfartalog at fforch. Cymerwch y llwybr ar y dde ac ar ôl 24 o gamau trowch i'r chwith i lawr llethr bach.

Daliwch i fynd i lawr yr allt heibio i chwarel arall ar y chwith. Yma fe gyrhaeddwch grib cul lle ceir ffens gadwyn i'r chwith, rhwng y chwarel a dyffryn yr afon. Wrth nesáu at y gwaelod parhewch yn yr un cyfeiriad i ddarganfod llwybr trol llydan ac arwydd yn nodi'r ffordd.

Trowch i'r chwith ac ar ôl ychydig fetrau ewch i'r dde wrth y fforch i gyrraedd pont adnabyddus 'Pont y Diafol' sy'n croesi Afon Eitha, man poblogaidd ar gyfer hunanladdiadau yn y 18fed ganrif. Mae'r goedwig yn gyfoeth o blanhigion: clychau'r gog, craf y geifr, marddanhadlen a choed derw, ffawydd a chriafol i enwi dim ond rhai.
(Os ydych yn credu eich bod wedi cyrraedd y llwybr trol yn y man anghywir trowch i lawr yr allt i dod o hyd i Bont y Diafol.)

Ewch dros y bont a dilynwch y llwybr i'r dde i fyny'r allt. Trowch i'r dde ar hyd y B5097. Ar draws y ffordd sylwch ar y clincer yn y wal. Roedd ffowndri gerllaw a 'chlincer' neu slag yw'r gwastraff o'r ffwrnais.

Parhewch heibio i **Blas Wynn (10),** ac ychydig ar ôl tŷ 'Brooklyn' (tŷ gwyn mawr) trowch i'r dde ar hyd y llwybr troed sy'n arwain bron yn syth at giât a chamfa. Ar ôl mynd dros y gamfa mae'r llwybr troed yn disgyn yn raddol at bont droed.

Ewch dros y bont droed ond peidiwch â dilyn y llwybr amlwg yn syth ymlaen. Yn hytrach ewch yn groeslinol ar draws y cae ac i fyny'r arglawdd. Ar ei ben mae nifer o lwybrau, cymerwch yr ail ar y dde ar ôl tua 15 metr i groesi ceuffos ymlaen i gae agored.

Disgynnwch yn raddol at y gwrych ar y dde ac yna dilynwch y gwrych. Mae'r clawdd glaswelltog hwn yn weirglodd heb ei wella - noddfa i flodau gwyllt, gan gynnwys ffacbys, melynwellt, milfyw a phys ceirw. Ewch i gyfeiriad y goeden ffawydd fawr yng nghornel isaf y cae a byddwch yn ôl yn y Coed Creigiog.

Dilynwch y prif lwybr trwy'r coed. Yn fuan fe ail-ymunwch â'r llwybr y cerddoch ar ei hyd yn gynharach i gyrraedd Pont y Diafol. Y tro hwn daliwch i fynd heibio i'r bont ar hyd y llwybr, gan fynd heibio i fythynnod briciau coch at y ffordd.

Yn groeslinol i'r dde fe welwch 5 o risiau sy'n mynd i fyny ochr yr arglawdd ar ochr y fordd. Ewch i fyny'r rhain a thrwy'r giât mochyn

a cherddwch ar ben y clawdd serth nesaf at y gwrych. Mae'r cefnau cywrain yn y cae hwn wedi digwydd o ganlyniad i gwymp tir, nodwedd gyffredin mewn priddoedd cleiog ar elltydd serth.

Ar ochr arall y cae hwn dilynwch y llwybr, ewch dros y gamfa ac ar hyd y llwybr estyllod i mewn i'r coed cyn cyrraedd y ffordd. Trowch i'r dde.

Ewch ar hyd y lôn i'r chwith sydd wedi'i harwyddo ar gyfer yr orsaf a dilynwch hi at y bont droed dros yr afon. Ger y rhaeadr, edrychwch ar y coed sycamor, helyg a chriafol, ac yn y gwanwyn, craf y geifr, clychau'r gog a'r gegiden fenyw. Ewch o dan y bont reilffordd a dilynwch y llwybr yn ôl i Ffordd yr Orsaf.

Lleoedd o ddiddordeb

(1) Mae'r TŶ CRWN yn un o dri o'i fath yng ngogledd Cymru. Fe'i defnyddiwyd i garcharu meddwon a phobl annymunol dros nos.

(2) Mae GWESTY'R WYNNSTAY ARMS yn hen gerbyty a enwyd ar ôl teulu'r Wyniaid. Dyma lle byddai'r coetsis mawr yn newid ceffylau ar gyfer rhan nesaf eu siwrnreiau.

(3) Mae gan EGLWYS Y SANTES FAIR fynwent hyfryd, rhai cofadeiliau nodedig, a golchlun o'r 14eg ganrif dan y teitl 'The Works of Mercy'. Mae ganddi hefyd chwe chloch ac mae gan bob un arysgrif gwahanol.

(4) Sefydlwyd yr HEN YSGOL RAMADEG yn 1618 ac fe'i defnyddiwyd fel ysgol tan 1858.

(5) Enwyd FFERM TATHAM ar ôl Richard Tatham a oedd yn denant tua 1784. Roedd dwy fferm yma yn wreiddiol.

(6) Adeiladwyd CLAWDD OFFA yn yr 8fed ganrif gan Offa, Brenin Mersia. Mae oddeutu 138km (80 milltir) o hyd a darparodd ffin rhwng Cymru a Lloegr.

(7) Roedd PORTHDY GARDDEN yn gartref i Uchel Siryf Sir Ddinbych, Edward Rowland ar ddechrau'r 19eg ganrif. Roedd TAI IÂ yn nodweddiadol mewn ystadau yn y 19eg ganrif. Adeiladwyd

yr adeiladau hyn i storio cig. Roedd ganddynt waliau trwchus ac roedd rhan ohonynt yn aml dan ddaear er mwyn sicrhau insiwleiddiad ychwanegol. Byddai'r swmp mawr o rew a gasglwyd yn y gaeaf yn cadw'r cig yn fwytadwy am hyd at flwyddyn.

(8) Mae'n bosibl fod CAER GARDDEN yn dyddio'n ôl i'r Oes Haearn. Mae'n ymestyn dros bedair acer ac mae rhan ohoni wedi'i chau mewn wal gerrig, cafodd ei hamddiffyn gan ddau glawdd a thri dyfrffos ar yr ochr ddeheuol. Nid oes unrhyw waith cloddio wedi digwydd ar y gaer ond mae'n bosibl bod pobl yn byw yno yn yr 8fed ganrif.

Yn 1167 bu brwydr ar y safle rhwng Owain Cyfeliog, Tywysog Powys Uchaf a'r Saeson a'r Normaniaid. Enillwyd y frwydr hon gan y Cymry ac ysgrifennwyd y gerdd 'Hirlas Eucin' i ddathlu'r digwyddiad.

'Hirlas' yw'r enw a roddir i'r corn glas mawr a ddefnyddir ar gyfer dathliadau ac a welir hyd heddiw mewn seremonïau'r Eisteddfod Genedlaethol. Caiff y frwydr hon glod hefyd am enwi'r Afon Goch a orlifwyd â gwaed y Saeson yn ôl y sôn.

(9) COED GARDDEN. Gelwir y coetir hwn yn 'Coed Creigiog' yn lleol oherwydd y dair hen chwarel dywodfaen a gyflenwodd gerrig i ogledd Cymru, Swydd Gaerhirfryn a Sir Caer tan 1952.

Mae'r adar amrywiol sy'n byw yn y coed yn cynnwys sgrech y coed, y gwybedog mannog, y gwybedog brith, y dylluan fach, y dylluan frech, y gnocell fraith fwyaf, cnocell y cnau, trochwr, ffesantod, siglen lwyd a'r titw cynffon hir.

(10) Adeiladwyd PLAS WYNN yn yr 17eg ganrif ac fe'i enwyd ar ôl y teulu a'i adeiladodd. Yn 1670 roedd William Wynn yn byw yn y plas; Roedd yn gomisiynydd a enwyd yn Neddf Gwasgaru'r Efengyl yn 1650 yng Nghymru. Gwasanaethodd y Senedd yn ystod y rhyfel cartref rhwng y Brenhinwyr a'r Pengrynwyr. Bu farw yn 1692 ac fe'i claddwyd ym Mynwent yr Anghydffurfwyr yn Wrecsam.

Bu i'w wyres briodi'r Parch. John Kendrick, gweinidog Capel Presbyteraidd Stryt Caer, Wrecsam, Felly y dechreuodd y cysylltiad hir rhwng teulu Kendrick a Phlas Wynn onddaeth i ben

yn 1970 pan werthodd aelodau'r teulu a oedd yn weddill bopeth ac allfudo i Awstralia.